Cwis Anifeiliaid!

Atebion

Anifail Rhif Un

Eliffant! Ysgrifennwyd y darn hwn bron 135 o flynyddoedd yn ôl gan y cyfansoddwr Ffrengig Camille Saint-Saëns.

Anifail Rhif Dau

Ci! Dyma ddarn gan y cyfansoddwr Americanaidd George Gershwin o'r enw *'Walking the Dog'*. Gallwch ddychmygu'r ci yn rhedeg o gwmpas ar ôl y darnau o goed.

Anifail Rhif Tri

Dafad! Mae hon yn alaw anodd ei dyfalu oherwydd ei bod yn swnio'n union fel *'Twinkle, Twinkle Little Star'*.

Anifail Rhif Pedwar

Os gwnaethoch chi ddyfalu 'pysgodyn', rydych yn gywir! Enw'r alaw hon yw *'The Trout'* gan Franz Schubert. Yn y darn, mae'r piano yn chwarae sain dŵr yn byrlymu tra bod y clarinét yn chwarae alaw siriol uwch ei ben.

Anifail Rhif Pump

Arth! Yn y darn hwn gan Vitalij Neugasimov mae'r piano yn chwarae llawer o nodau isel, trwm i swnio fel arth yn symud.

Anifail Rhif Chwech

Llygoden! Dyma fersiwn jazz o'r alaw '*Three Blind Mice*' o'r enw *'Three Blue Mice'* a ysgrifennwyd gan Terence Greaves.

Anifail Rhif Pump

Alarch! Dyma ddarn enwog, sy'n llifo gan Camille Saint-Saëns Yn union fel darn Schubert *'The Trout',* mae'r piano yn chwarae rhagor o seiniau byrlymus tra bod y clarinét yn chwarae alaw lyfn hyfryd, sy'n darlunio'r alarch yn symud yn esmwyth ar hyd y dŵr.